Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg

# Gwyliau yn ystod y Tymor

## MYND AR WYLIAU YN YSTOD Y TYMOR

## CANLLAW I RIENI

### CWESTIYNAU CYFFREDIN

**A oes gen i hawl i dynnu fy mhlentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol?**

- Nac oes. Mae gan rieni ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol neu'r ddarpariaeth arall yn rheolaidd
- Mae Deddf Addysg 1996, yn ei gwneud yn drosedd i riant “fethu â sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol”
- Ein barn yw na ddylid cymeradwyo unrhyw wyliau yn ystod y tymor
- Ni ddylai Penaethiaid ganiatáu unrhyw absenoldeb (gwyliau) yn ystod tymor oni bai bod amgylchiadau eithriadol
- Nid oes gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor

**Os byddwn yn penderfynu cymryd gwyliau yn ystod y tymor beth sy'n rhaid i ni ei wneud?**

- Rhaid i riant/gofalwr sydd yn byw gyda’r plentyn wneud cais ar bapur i Bennaeth yr ysgol lle mae’r plentyn wedi’i g/chofrestru
- Rhaid i'r llythyr/cais egluro beth yw'r amgylchiad eithriadol ar gyfer y cais am yr absenoldeb

**Beth fydd yr ysgol yn ei wneud wedyn?**

- Bydd y Pennaeth yn penderfynu a yw'r amgylchiadau eithriadol yn gymwys, os nad ydynt, bydd y cais yn cael ei wrthod
- Dim ond y Pennaeth (neu'r Dirprwy) sydd â’r grym i gymeradwyo ceisiadau absenoldeb. Wrth wneud ei b/phenderfyniad, bydd y Pennaeth yn ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn (Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan) (2011)
- Bob blwyddyn academaidd, mae ysgolion yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr drwy gyfrwng llythyr, newyddlen, neu wefan yr ysgol, y gallant dderbyn Rhybudd Cosb Benodedig os oes gan eu plentyn absenoldebau heb eu hawdurdodi (10 diwrnod neu fwy) yn ystod y tymor
- Byddwch yn derbyn ymateb ysgrifenedig oddi wrth y Pennaeth (neu'r Dirprwy) yn rhoi gwybod i chi os yw eich cais wedi cael ei gymeradwyo
- **Os byddwch yn parhau â’r gwyliau ar ôl i’r cais gael ei wrthod, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi yn un heb ei awdurdodi**